# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher yr 2ail o Orffennaf 2025 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Huw James (Cadeirydd), Iori Saer, Dorian Lewis, Wyn Evans ac Elgan Williams

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Sarah Pask & Christopher Smoothy & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Fai 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**
Cynghorydd Dorian Lewis – Cynllunio PL/09327

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd materion CaThEM wedi ei datrys ac roedd y cyflog y clerc wedi cael ei dalu.
Trafodwyd argymhelliad am arwydd Newydd i Barc Blaenwaun ac fe gytunwyd i'r clerc archebu un.
Roedd y clerc wedi cael pedwar amcan pris am stordy newydd i'r caeau chwarae. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i archebu wrth A & W Agricultural Services Ltd am yr amcan pris o £2800.00 + TAW wedi cael ei gludo i Blaenwaun. Cytunodd y Cynghorydd Huw James i gaslu trawstwr rheiffordd fel fod y stordy newydd yn eistedd arno. Byddai'r Cynghorwyr yn rhoi gwybod i'r clerc pryd byddai'r safle yn barod i dderbyn y strordy newydd.
Nid oedd y clerc wedi derbyn diweddariad am y biniau halen nac y tyllau a oedd wedi eu adrodd ond byddai'n dilyn hyn i fyny.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Roedd Archwilwyr Cymru wedi gorffen yr archwiliad am 2023-24. Roedd yr adroddiad ac yr hysbysiad wedi eu rhoi ar yr hysbysfwrdd ac ar y wefan. Trafodwyd yr adroddiad.

**B** – Trafodwyd poster ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda cyn ei roi ar yr hysbysfwrdd.

**C** – Roedd hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gael ar yr 10/7/25 am 2.00yh trwy Zoom. Byddai'r clerc yn danfon y linc i'r cynghorwyr.

**CH** – Roedd Mr R Jackson wedi dychwelyd y cytundeb pori ynghyd a llythyr yn nodi ei bryder yng nghynnydd y rent. Trafodwyd y llythyr a ffurfiwyd ddrafft ar lythyr ymateb iddo yn nodi fod y rhent cychwynol yn îs dan yr amod ei fod yn gwella'r tir.

**D** – Roedd y clerc wedi cysylltu gyda Chyfreithwyr Edward Harris am ddiweddariad ac fe'i hysbyswyd fod y gwaith papur ar waith.

**6: DERBYNIADAU:**
Llôg - £8.91
Hayes – Rhent - £20.00
Watkins Partnership – Rhent - £308.25
Jackson – Rhent - £462.50
Tyrbein Gwynt GVO 39 - £3,821.74

**7: BILIAU:**
CaThEM - Paye - £144.40
Aled Jones – Torri cloddiau 2023 & 2024 - £276.00
Charlie Jackson – Strimio a torri glaswellt - £50.00
Awdurdodwyd i'r anfonebau cael eu talu drwy trosglwyddiad banc.
Cytunwyd i dalu Charlie Jackson y swm ychwanegol am dorri'r borfa tan ddiwedd yr hâf ac yna rhoi y gwaith allan i dendr am y flwyddyn nesaf.

**8: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £2,100.02 |
| Cyfrif Trysorydd | £16,925.29 |
| **Cyfanswm o** | **£19,025.31** |

**9: CYNLLUNIO:**
**PL/09327** – estyniad un-llawr ar gyfer cyfleustera anabledd @ 1 Heol Shon, Blaenwaun, SA34 0HX
**PL/09512** – Ail-wneud adeilad wedi ei ddirywio @ Ty Isaf, Cwmfelinmynach, SA34 0DH
**PL/09521** – Ail-wneud adeilad wedi ei ddirywio @ Ty Isaf, Cwmfelinmynach, SA34 0DH

**10: Unrhyw fater arall:**
Roedd dyfodol y Neuadd ar yr agenda ac roedd argymhellion wedi cael eu rhoi ymlaen gan gynghorwyr oedd yn absennol. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Codwyd pryder am ddifrod oedd yn cael ei wneud i ddrychau asgell lorïau a tractorau gan goed Blaengors ar y brif ffordd. Byddai'r clerc yn ysgrifennu at Mr James, Blaengors yn nodi'r pryderon ac yn amgau polisi y Cyngor Sir ar gyfrifoldebau tirfeddiannwyr.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher yr 3ydd o Fedi 2025 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**